**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Tachwedd 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen-James (Chair)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield MBE, Ms. J. Hughes, A.S. Johnson, Miss E. Jones, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, B. Mellor, Ms. V. Roberts, a Miss C.L. Williams.

Hefyd yn bresennol oedd y Cynghorwyr B. Jones a T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 32. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain Jones, S. Harris, A.J. Rutherford .

## 33. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyn ystyried y rhain, atgoffodd y Cadeirydd a'r Clerc yr Aelodau o bolisi'r Cyngor Tref a oedd yn gofyn i'r Aelodau hysbysu'r Cadeirydd o unrhyw geisiadau yr hoffent gael eu trafod cyn i'r cyfarfod gychwyn.

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 33.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE** Cookhouse a Premier Inn, 21-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Ms. J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/1004<br><br>Arddangos arwyddion mewn perthynas â'r bwyty a'r gwesty.<br><br>Yr ymgeisydd yw Whitbread Plc, Dunstable<br><br>***PENDERFYNIAD:*** *Dim gwrthwynebiad yn amodol ar Nodyn 1 uchod.* |
| | |
| 33.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE** 11 Beech Avenue, y Rhyl. |

| | |
|---|---|
| | **WARD:** Tynewydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** B. Blakeley<br>B. Jones<br>Miss C. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/1002<br><br>Adeiladu estyniadau a newidiadau i dŷ annedd.<br><br>Yr ymgeiswyr yw Mr. a Mrs. Neil a Jessica Griffiths o’r cyfeiriad uchod.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| | |
| 33.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE** Tir yn Greenfield Place, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Pendyffryn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. D.L. King<br>A.J. Rutherford<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2017/1029<br><br>Amrywio amod rhif 6 cod caniatâd cynllunio rhif 45/2001/0562 i ganiatau cyfnod o 2 awr am ddim ac yna codi tâl.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Hewett, K/S Greenfield Place d/o Nectar Asset Management Ltd., Regnbuepladsen 5, 4$^{th}$ Floor, 1550 Copenhagen V, Copenhagen, Denmarc.<br><br>***PENDERFYNIAD**: Gwrthwynebiad*<br><br>*Mae’r Cyngor yn ystyried bod cyfnod o 2 awr yn annigonol i hwyluso pobl sy’n defnyddio’r maes parcio i fynd i ganol y dref ac yn gofyn am gael newid yr amser i 3 awr.*<br><br>Os caiff ei newid i 3 awr, nid yw’r Cyngor Tref yn gwrthwynebu. |

## 34. TERFYNU’R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………….........